Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Gorffennaf 2022

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ers ei sefydlu ym mis Mehefin 2021, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (y Pwyllgor) wedi ystyried adroddiadau monitro chwarterol ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun).

**2.** Dyma'r pedwerydd adroddiad, sy'n nodi'r flwyddyn gyntaf y bu'r Pwyllgor yn monitro'r Cynllun. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r ystadegau ers lansio'r cynllun ym mis Mawrth 2019 hyd at 31 Mawrth 2022, ac mae'n nodi nifer o faterion o bwys a chasgliadau a godwyd gan y Pwyllgor yn ei waith.

## 2. Cefndir

**3.** Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, roedd yn rhaid i ddinasyddion Ewrop a oedd yn byw yng Nghymru cyn 31 Rhagfyr 2020 wneud cais i aros erbyn 30 Mehefin 2021.

**4.** Mae hyn yn berthnasol i ddinasyddion Aelod-wladwriaethau'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir ond nid dinasyddion Iwerddon, sydd wedi'u heithrio o dan drefniadau ar wahân. Nid yw nifer y dinasyddion o'r gwledydd hyn sy'n byw yn y DU yn hysbys, sy'n golygu nad oes neb yn gwybod faint o geisiadau y dylid eu disgwyl.

**5.** Cynllun Llywodraeth y DU yw'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ac mae'n rhaid i ddinasyddion Ewrop wneud cais iddo er mwyn aros yn y DU ar ôl Brexit.

**6.** Ers ei lansio, mae bron 6.6 miliwn o geisiadau wedi'u cyflwyno. Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws 'preswylydd sefydlog' neu statws 'preswylydd cyn sefydlu'. I gael y cefndir, darllenwch erthygl flaenorol Ymchwil y Senedd.

**7.** Sefydlwyd y Cynllun i fodloni'r gofynion hawliau dinasyddion sydd ynghlwm wrth y cytundebau rhwng y DU, yr UE a gwledydd Ewropeaidd eraill fel rhan o Brexit, gan gynnwys y Cytundeb Ymadael. Mae hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU yn cael eu gwarantu gan gytundebau gyda'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir.

**8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gadw at y cytundebau hyn ac mae Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (y Gweinidog) yn gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â'r Cynllun yng Nghymru.

**9.** Caiff ystadegau ar y ceisiadau i'r Cynllun eu cofnodi gan Lywodraeth y DU. Cyhoeddir ystadegau lefel uchel bob mis a chyhoeddir ystadegau manwl, gan gynnwys data ar gyfer Cymru, bob chwarter.

# 3. Trosolwg

## Ceisiadau a gyflwynwyd erbyn 31 Mawrth 2022

**10.** Hyd at 31 Mawrth 2022, cyflwynwyd 106,020 o geisiadau o Gymru, gan gynnwys 18,460 o geisiadau ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed, o'u cymharu â'r 95,000 o ddinasyddion cymwys yr amcangyfrifwyd yr oedd angen iddynt wneud cais. Mae nifer y ceisiadau felly yn fwy na'r nifer yr amcangyfrifwyd eu bod yn gymwys.

## Ceisiadau y penderfynwyd yn eu cylch

**11.** Penderfynwyd ynghylch 102,500 o geisiadau erbyn diwedd mis Mawrth ac fe gyfeirir at y rhain fel 'ceisiadau a gwblhawyd'.

## Canlyniadau llwyddiannus


**12.** Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws 'preswylydd sefydlog' neu statws 'preswylydd cyn sefydlu', a chaiff hyn ei drafod yn fanylach isod.

**13.** Ers i'r Cynllun agor, rhoddwyd statws preswylydd sefydlog i 56.6% o ymgeiswyr yng Nghymru erbyn 31 Mawrth a rhoddwyd statws preswylydd cyn sefydlu i 36.7% ohonynt.

**14.** Mae'r ffeithlun isod gan Ymchwil y Senedd yn dangos canran a nifer y ceisiadau o Gymru. Mae'n dangos a gawsant eu cyflwyno cyn/ar ôl y dyddiad cau, a benderfynwyd yn eu cylch ("a

gwblhawyd") ai peidio, ac mae'n dangos canlyniad y ceisiadau gan ddinasyddion Ewrop yng Nghymru hyd yma.

Ceisiadau i'r Cynllun o Gymru yn ôl dyddiad, ceisiadau a gwblhawyd a chanlyniadau gan ddangos y canrannau a'r niferoedd:




Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Mawrth 2022

## Statws 'preswylydd sefydlog' neu 'breswylydd cyn sefydlu': rhagor o wybodaeth

**15.** Hyd at 31 Mawrth, rhoddwyd statws preswylydd sefydlog i 56.6% o'r ceisiadau o Gymru a gwblhawyd (58,060 o geisiadau) . I gael statws preswylydd sefydlog, rhaid i ymgeisydd fod wedi byw yn y DU am bum mlynedd heb absenoldeb o fwy na chwe mis, gyda rhai eithriadau. Bydd dinasyddion sy'n cael statws preswylydd sefydlog yn colli eu statws os byddant yn treulio mwy na phum mlynedd yn olynol y tu allan i'r DU.

**16.** Rhoddwyd statws preswylydd cyn sefydlu i 36.7 y cant o'r ceisiadau o Gymru a gwblhawyd (37,650 o geisiadau). Rhoddir statws preswylydd cyn sefydlu i ddinasyddion Ewrop sy'n byw yn y DU ers llai na phum mlynedd, ond a gyrhaeddodd y DU cyn 31 Rhagfyr 2020. Bydd dinasyddion

sy’n cael statws cyn sefydlu yn colli’r statws hwnnw os byddant yn treulio mwy na chwe mis dramor yn ystod pob cyfnod o 12 mis (mae rhai eithriadau).

**17.** Gall dinasyddion sy’n breswylwyr sefydlog a’r rhai sy’n breswylwyr cyn sefydlu weithio yn y DU, a bydd gwasanaethau gofal iechyd, addysg ac arian cyhoeddus ar gael iddynt. At hynny, gallant deithio i mewn ac allan o'r DU a gwneud cais am ddinasyddiaeth. Fodd bynnag, ni all dinasyddion â statws cyn sefydlu ddod ag aelodau o'r teulu i ymuno â hwy.

**18.** Cofnodir ceisiadau aflwyddiannus hefyd. Cafodd 2.9 y cant o geisiadau o Gymru eu gwrthod (3,000 o geisiadau a gwblhawyd), cafodd 1.8 y cant eu tynnu’n ôl neu eu dileu (1,870 o geisiadau a gwblhawyd), ac roedd 1.9 y cant yn annilys (1,910 o geisiadau a gwblhawyd).

### Ceisiadau hwyr

**19.** Mae nifer y ceisiadau hwyr o Gymru wedi cynyddu o 4,240 ar 31 Rhagfyr 2021 i 6,180 ar 31 Mawrth 2022. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 4 isod.

**20.** Mae’r Cynllun yn parhau ar agor ar gyfer ceisiadau hwyr, a chânt eu caniatáu os oes gan unigolyn sail resymol dros fethu’r dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021. Gall enghreifftiau gynnwys rhiant sy’n methu â gwneud cais ar ran plentyn neu unigolyn sydd â chyflwr meddygol difrifol.

## 4. Dinasyddion â statws preswylydd cyn sefydlu: ail gais i aros


**21.** Daw statws preswylydd cyn sefydlu i ben ar ôl pum mlynedd, a rhaid ei droi’n statws preswylydd sefydlog drwy wneud ail gais.

**22.** Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r 37,650 o ddinasyddion a gafodd statws preswylydd cyn sefydlu wneud cais arall os ydynt am aros yng Nghymru ar ôl y terfyn amser.

**23.** Os na fyddant yn ailymgeisio, gall dinasyddion golli’r hawl awtomatig i weithio, i fanteisio ar wasanaethau tai ac addysg ac i gael budd-daliadau, ac mae’n bosibl y bydd yn rhaid iddynt adael y DU.

**24.** Cred y corff sy’n gyfrifol am fonitro hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU, sef yr Awdurdod Monitro Annibynnol, fod y golled awtomatig hon o hawliau yn anghyfreithlon oherwydd ei fod yn torri cytundebau’r DU â’r UE a gwledydd eraill Ewrop. Ar 14 Rhagfyr 2021, gwnaeth Awdurdod Monitro Annibynnol gychwyn achos adolygiad barnwrol yn erbyn Llywodraeth y DU i herio hyn. Ni ryddhawyd unrhyw wybodaeth ychwanegol hyd yma.

**25.** Mae'r map isod yn dangos nifer y dinasyddion â statws cyn sefydlu yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru:



## Troi statws preswylydd cyn sefydlu yn statws preswylydd sefydlog

**26.** Mae'r nifer sy'n gwneud cais i droi eu statws preswylydd cyn sefydlu yn statws preswylydd sefydlog wedi'i gynnwys mewn ystadegau ar geisiadau ailadroddus.

**27.** Mae ystadegau ar gyfer y DU gyfan yn dangos bod 328,350 o ddinasyddion â statws preswylydd cyn sefydlu wedi ennill statws preswylydd sefydlog. Nid oes gwybodaeth ar gael am wahanol wledydd y DU. Gan hynny, nid yw'n hysbys faint o geisiadau a gyflwynwyd gan ddinasyddion o Gymru sydd â statws preswylio cyn sefydlu ac sy'n ceisio newid eu statws. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a oes ganddi ragor o wybodaeth ond ni chynigwyd dim yn ei hymateb ym mis Chwefror 2022.

**28.** Yn ei gohebiaeth ym mis Ebrill 2022, dywedodd y Gweinidog y byddai swyddogion yn mynd ati'n fuan i adolygu cyhoeddiad diweddar gan Migration Observatory, sef How Secure is Pre-Settled Status for EU Citizens After Brexit? i sicrhau bod cymorth yn parhau i ddiwallu anghenion penodol dinasyddion sydd â statws preswylio cyn sefydlu yng Nghymru, a dinasyddion agored i niwed yn arbennig. Mae'r adroddiad yn nodi sawl agwedd ar y Cynllun a fydd yn effeithio ar allu pobl agored i niwed i newid eu statws, sef:

- Proses ymgeisio ddeublyg gyda nifer o ddyddiadau cau gwahanol;
- Proses ymgeisio ddigidol a statws digidol yn unig;
- Proses ymgeisio fwy beichus ar gyfer statws preswylydd sefydlog nag ar gyfer statws preswylydd cyn sefydlu;
- Ansicrwydd ynghylch y cymorth a fydd ar gael yn y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau cyfieithu; a
- Bylchau mewn preswyliaeth barhaus.

### Materion o bwys a chamau gweithredu dilynol

Mae bylchau ystadegol yn y nifer sy'n gwneud cais i droi eu statws preswylydd cyn sefydlu yn statws preswylydd sefydlog yng Nghymru.

Ceisio eglurder ar p'un a all Llywodraeth Cymru nodi dinasyddion sydd â statws 'preswylydd cyn sefydlu', gan gynnwys at ddiben darparu cymorth ac atgoffa am ail geisiadau.

Gofyn am brif ganfyddiadau a chasgliadau adolygiad Llywodraeth Cymru o adroddiad Migration Observatory.

# 5. Ceisiadau hwyr


**29.** Cafwyd 543,100 o geisiadau drwy’r DU rhwng y dyddiad cau, sef 30 Mehefin 2021, a 30 Ebrill 2022.

**30.** Cynyddodd y ceisiadau hwyr o Gymru o 4,240 ar 31 Rhagfyr 2021 i 6,180 ar 31 Mawrth 2022.

**31.** Cyflwynwyd 510 o geisiadau hwyr ym mis Rhagfyr, sef y mis y cafwyd y nifer leiaf o geisiadau hwyr. Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau hwyr wedi cynyddu bob mis yn 2022, gyda 580 o geisiadau hwyr ym mis Ionawr, 630 ym mis Chwefror a 730 ym mis Mawrth.

**32.** Mae’r siart isod yn dangos nifer y ceisiadau o Gymru a gafwyd bob mis ers i’r Cynllun agor ym mis Mawrth 2019.

Ceisiadau bob mis fel rhan o Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru




Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, Mawrth 2022

**33.** Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar gyfer y rhai sydd â sail resymol am golli'r dyddiad cau, er enghraifft rhiant sydd wedi methu â gwneud cais ar ran plentyn neu rywun sydd â chyflwr meddygol difrifol.

**34.** Mae Llywodraeth y DU wedi addo diogelu hawliau'r rhai sydd â sail resymol dros fethu'r dyddiad cau.

**35.** Ym mis Chwefror 2022, ysgrifennodd y Pwyllgor at Aelodau Seneddol Cymru yn gofyn a allent roi syniad o faint o etholwyr sydd wedi codi materion yn ymwneud â cheisiadau hwyr a statws preswylydd cyn sefydlu. Ni chafwyd ymateb hyd yn hyn.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus o hyd ynghylch sut y mae dinasyddion sy'n gwneud ceisiadau hwyr i'r Cynllun, a'r rheini nad ydynt wedi gwneud cais (gweler adran 5 isod) yn cael eu trin.

### Materion o bwys a chamau gweithredu dilynol

Ceisio eglurder ar y canlynol:

- barn Llywodraeth Cymru am y cynnydd yn nifer y ceisiadau hwyr o Gymru;

- a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o broblemau'n ymwneud â cheisiadau hwyr.

## 6. Dim cais

**36.** Os nad yw unigolyn wedi gwneud cais i'r Cynllun ac yn dod i sylw awdurdodau'r DU, bydd yn cael 28 diwrnod o rybudd i wneud cais.

**37.** Dywed Llywodraeth y DU na fydd pobl nad ydynt wedi gwneud cais ar ôl y cyfnod rhybudd o 28 diwrnod yn gymwys i gael gwaith, budd-daliadau na gwasanaethau ac ni fyddant yn pasio gwiriadau tenantiaeth.

**38.** Mae'n bosibl y cymerir camau gorfodi yn eu herbyn, er bod Llywodraeth y DU yn pwysleisio na fyddant yn cael eu hallgludo'n awtomatig.

**39.** Hefyd, mae angen i gyflogwyr a landlordiaid roi gwybod i'r Swyddfa Gartref am bobl nad ydynt wedi gwneud cais.

### Materion o bwys a chamau gweithredu dilynol

Ceisio eglurder ar y canlynol:

- a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o broblemau'n ymwneud â dinasyddion nad ydynt wedi gwneud cais;

- a oes gan Lywodraeth Cymru syniad o nifer y dinasyddion cymwys nad ydynt wedi gwneud cais.

# 7. Llywodraeth Cymru

**40.** Mae'r adran hon yn crynhoi'r wybodaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn gyntaf y bu'n monitro'r Cynllun.

## Cyngor a chymorth am ddim

**41.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gwasanaethau cymorth a chyngor am ddim ar gyfer dinasyddion Ewrop a oedd am barhau i fyw yng Nghymru ar ôl Brexit.

**42.** Mae'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn wedi'i ymestyn sawl gwaith yn unol â phenderfyniadau Llywodraeth y DU. Roedd disgwyl y byddai'r gwasanaethau yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2022, ond cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 3 Mawrth 2022 y byddent yn cael eu hymestyn tan o leiaf fis Medi 2022.

**43.** Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ychwanegol o £2.5miliwn ar gyfer 68 o sefydliadau ledled y DU sy'n helpu pobl sy'n agored i niwed ee pobl sy'n wynebu rhwystrau ieithyddol neu na allant ddefnyddio TG. i wneud cais. Mae'r sefydliadau'n cynnwys elusennau, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol sy'n rhoi cymorth i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys pobl anabl, plant, y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol, dioddefwyr masnachu mewn pobl neu gam-drin domestig, a'r digartref, yr henoed neu bobl sydd ar eu pen eu hunain.

**44.** Ni chyhoeddwyd rhestr o sefydliadau ochr yn ochr â'r cyhoeddiad, ond roedd y cyhoeddiad yn cynnwys dyfyniad gan Tom Finney, Rheolwr Tîm EUSS yn Mind Casnewydd, a ddywedodd:

> *Mae penderfyniad y Swyddfa Gartref i ddyfarnu'r cyllid hollbwysig hwn i'w groesawu'n fawr. O ganlyniad i'r grant hwn, gall Mind Casnewydd barhau i roi cymorth a chefnogaeth hanfodol i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Gyda'r cronfeydd newydd hyn, ein nod yw parhau i ddatblygu ein gwasanaeth i ddiwallu anghenion ein cleientiaid mwyaf agored i niwed, sy'n newid yn gyson.*

**45.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ei bod yn cwrdd bob pythefnos â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oedd gan Lywodraeth Cymru lais ym mhenderfyniad Llywodraeth y DU i ddarparu arian ychwanegol.

### Materion o bwys a chamau gweithredu dilynol

Ceisio eglurder ar y canlynol:

- a fydd Llywodraeth Cymru yn ehangu'r cymorth sydd ar gael y tu hwnt i fis Medi 2022;

- rhan Llywodraeth Cymru ym mhenderfyniad Llywodraeth y DU i roi arian ychwanegol i gyrff sy'n gweithredu drwy'r DU, gan gynnwys a yw'r cyrff sy'n cael yr arian hwn yn bartneriaid allweddol i Lywodraeth Cymru; a

- sut y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydgysylltu'r modd y dyrennir cyllid i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

## Rhannu gwybodaeth

**46.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod Grŵp Cydgysylltu Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o bartneriaid allanol sy'n helpu dinasyddion i wneud cais i'r Cynllun.

**47.** Ym mis Chwefror 2022, dywedodd y Gweinidog fod y Grŵp wedi cytuno â chais y Pwyllgor i rannu cofnodion y cyfarfodydd tra bydd y Grŵp yn dal i gwrdd.

**48.** Atododd y Gweinidog gofnodion y cyfarfod ym mis Ionawr at ei gohebiaeth. Maent yn crynhoi gwaith y partneriaid allanol a ganlyn:

> Newfields Law, Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Migrant Help, Mind Casnewydd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, TGP Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Settled, TUC Cymru, y Gymdeithas Frenhinol Pobl Fyddar a'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus.

**49.** Hyd yn hyn, dim ond y cofnodion hyn a anfonwyd at y Pwyllgor.

### Materion o bwys a chamau gweithredu dilynol

Gofyn am gofnodion cyfarfod nesaf Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun.

# 8. Wcráin a thrwyddedau teulu o dan y Cynllun

**50.** Fel rhan o'r camau a gymerwyd mewn ymateb i ymosodiad Rwsia ar Wcráin, gofynnodd y Prif Weinidog i Brif Weinidog y DU ymestyn y dyddiad cau ar gyfer trwyddedau teulu o dan y Cynllun y tu hwnt i 29 Mawrth 2022. Disgrifiodd y Gweinidog y datblygiadau hyn yn ei gohebiaeth ym mis Ebrill 2022.

**51.** Roedd y llwybr hwn yn caniatáu i aelodau o deuluoedd dinasyddion Prydeinig cymwys ddod i’r DU ond roedd yn ofynnol i deuluoedd fod wedi dychwelyd i’r DU ac wedi gwneud cais o dan y Cynllun erbyn 29 Mawrth. Caniateir ceisiadau hwyr o dan amgylchiadau penodol, cyhyd ag y bo ‘sail resymol’ dros eu cyflwyno’n hwyr.

**52.** Penderfynodd Llywodraeth y DU beidio ag ymestyn dyddiad cau'r cynllun, sef 29 Mawrth, ac mae'r llwybr hwn yn awr ar gau i aelodau’r teulu cymwys o Wcrain oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ceisiadau hwyr.

**Casgliad 2.** Mae’r Pwyllgor yn siomedig na chafodd y dyddiad cau ei ymestyn er mwyn darparu llwybr ychwanegol i’r rhai â oedd yn dianc o’r rhyfel yn Wcráin.

## Ystadegau

**53.** Cafodd ceisiadau eu cynnwys yn ystadegau’r Cynllun yn ystod y cyfnod rhwng ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a ddechreuodd ar 24 Chwefror 2022, a dyddiad cau’r llwybr, sef 29 Mawrth 2022. Maent yn dangos bod 13,030 o bobl o Wcráin wedi gwneud cais o dan y Cynllun hyd at 31 Mawrth, a bod penderfyniad wedi’i wneud ynghylch 12,540 ohonynt. Nid yw gwybodaeth ar gael ar gyfer gwahanol wledydd y DU.

**54.** Ym mis Mawrth hefyd, eglurodd y Gweinidog y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymestyn y cyngor a’r cymorth a gynigir am ddim tan ddiwedd mis Medi “yn sicrhau bod gwasanaethau’n gallu darparu cymorth i ddinasyddion, gan gynnwys dinasyddion Wcráin a allai fod yn awyddus i ymuno ag aelodau o'u teulu sydd eisoes yn byw yma yng Nghymru.”

### Materion o bwys a chamau gweithredu dilynol

Sefydlu a yw Llywodraeth Cymru yn gwybod faint o geisiadau a ddaeth i law gan bobl o Wcráin a oedd yn cyrraedd yng Nghymru a wnaeth gais i’r Cynllun.

Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y cyswllt hwn.

# 9. Gwaith y pwyllgor

**55.** Yn dilyn pob adroddiad chwarterol a gafodd y Pwyllgor yn ystod ei flwyddyn gyntaf, cytunodd yr Aelodau i wneud y canlynol :

- cyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd ar hawliau dinasyddion Ewrop yng Nghymru, ac maent ar gael ar wefan y Senedd;
- rhannu ei adroddiadau â'r Awdurdod Monitro Annibynnol; a
- gofyn am asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru, gan gynnwys elfennau penodol; ac
- ysgrifennu at Aelodau Seneddol i rannu ystadegau'r Cynllun a gofyn i ba raddau y mae materion yn ymwneud â'r Cynllun yn cael eu codi.